# Ni ddylai neb fod heb neb

## taclo unigrwydd ac arwahanrwydd yng Nghymru

age Cymru

Creu Cymru oed gyfeillgar

**Er mwyn gwella lles ac iechyd Cymru, mae angen gwneud taclo unigrwydd ac arwahanrwydd yn flaenoriaeth iechyd cyhoeddus. Mae 75,000 o bobl hŷn yng Nghymru wedi dweud eu bod yn teimlo yn unig 'drwy'r amser neu'n aml' - mae'n reality dyddiol i nifer o bobl hŷn.**

Mae teimlo'n unig yn niweidiol i les pobl hŷn, ac mae yna fwy a mwy o dystiolaeth o'r effeithiau negyddol ar iechyd corfforol a meddyliol. Mae'r effeithiau negyddol hyn yn gallu arwain at fwy o bwysau ar ystod eang o wasanaethau iechyd ac awdurdodau lleol. Ond gellir gweithredu'n ymarferol er mwyn mynd i'r afael â'r mater.

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i daclo unigrwydd ac arwahanrwydd yn darparu cyfle ac ysgogiad i bobl a sefydliadau i weithio gyda'i gilydd yn eu cymunedau lleol er mwyn creu Cymru sy'n gyfeillgar i oedran lle nad oes neb heb neb.

***"Mae angen i chi deimlo fel bod pobl eich eisiau - mae angen i bawb deimlo fel bod pobl eu hangen... ac mae gennym lawer i'w gynnig, beth bynnag yw ein hoedran."***

**Mae pobl hŷn yng Nghymru wedi dweud wrthym y byddant yn lleddfu unigrwydd mewn cymunedau lleol trwy wneud y canlynol:**

- mynd i glybiau cinio a chlybiau cymdeithasol i bobl hŷn (70%)
- trafnidiaeth rhad ac am ddim i ddigwydd-iadau cymdeithasol ac yn ôl (70%)
- ymweliadau rheolaidd gan wyneb cyfeillgar (70%)
- galwad ffôn rheolaidd yn wythnosol (58%)

Wrth gyflwyno ei hymrwymiad i ddatblygu strategaeth i daclo unigrwydd ac arwahanrwydd, hoffem weld Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:

**Lansio** ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n achosi unigrwydd ac annog pobl i wneud cysylltiadau o fewn eu cymuned leol.

**Buddsoddi** mewn datblygu cymunedol sy'n galluogi pobl hŷn i gymryd rhan mewn amlygu, datblygu a chyflwyno atebion i arwahanrwydd.

**Datblygu** gwasanaethau sy'n rhoi cymorth i bobl allu ymdopi â chyfnodau yn eu bywyd sy'n gallu cynyddu unigrwydd, fel profedigaeth, gorfod stopio gyrru, neu symud i gartref newydd neu gartref gofal.

**Gweithio** gydag awdurdodau lleol er mwyn monitro ac ymateb i effaith rhoi stop ar wasanaethau lleol ar bobl hŷn. Gall hyn gynnwys cau cyfleusterau cymunedol, toriadau i lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus a newidiadau i'r amgylchedd adeiledig.

**Gweithio** gydag awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector i sicrhau bod y gwasanaethau ataliol y maen nhw'n eu darparu yn cael eu cynnal ar seiliau cynaliadwy.

Tŷ John Pathy, 13/14 Cwrt Neptune,
Ffordd Blaen y Gad, Caerdydd CF24 5PJ
Ffôn: 029 2043 1555
**www.agecymru.org.uk**
**Dilynwch ni ar**
facebook.com/agecymru
twitter.com/agecymru
#loneliness

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Swyddfa gofrestredig fel yr uchod. ©Age Cymru 2017